# Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau – Cod Ymddygiad Aelodau

## Diben

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan holl aelodau Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau. Mae'n ategu'r Cylch Gorchwyl a'i nod yw sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu gydag uniondeb, tryloywder a pharch i bawb, cynnal cyfrinachedd a diogelu uniondeb ei phrosesau gwneud penderfyniadau.

## 1. Gwerthoedd Craidd ac Ymddygiad

Disgwylir i bob aelod o Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau:

- Cadw at **Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus** (Egwyddorion Nolan). Dangos Egwyddorion Nolan ar waith – Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arwain.
- Gweithredu er budd gorau'r Barri a'i chymunedau.
- Cyfrannu'n gadarnhaol ac yn adeiladol at gyfarfodydd a phrosesau gwneud penderfyniadau.
- Parchu safbwyntiau amrywiol pobl eraill ac ymdrechu i gael consensws.
- Diogelu enw da, cyfrinachedd ac uniondeb y Bwrdd drwy'r amser.

## 2. Presenoldeb a Chyfrannu

Disgwylir i'r aelodau:

- Blaenoriaethu presenoldeb mewn cyfarfodydd a chyfrannu'n weithredol at drafodaethau.
- Bod yn barod ar gyfer cyfarfodydd drwy ddarllen yr holl ddeunyddiau gaiff eu rhannu ymlaen llaw.
- Hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw os na allant fynychu.
- Ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol a dangos parch.

## 3. Cyfrinachedd a Delio â Gwybodaeth

Mae cyfrinachedd wrth wraidd y ffordd mae Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau'n gweithio. Rhaid i aelodau:

- Beidio â datgelu neu rannu unrhyw fanylion am drafodaethau cyfarfodydd, deunydd sy’n sensitif yn fasnachol, cynigion drafft, neu anghytuno mewnol gydag unigolion neu sefydliadau y tu allan i'r Bwrdd.
- Osgoi gwneud sylwadau cyhoeddus (gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol) ar faterion sydd dan ystyriaeth oni bai bod caniatâd wedi ei roi gan y Cadeirydd a Chyngor Bro Morgannwg.
- Parchu'r egwyddor "gofod diogel" ar gyfer trafod a datblygu polisi i sicrhau trafodaeth rydd a gonest heb ofni y bydd pethau’n cael eu datgelu’n gyhoeddus yn gynamserol.
- Deall y gall torri cyfrinachedd arwain at ddileu aelodaeth person o'r Bwrdd.

## 4. Ymddygiad mewn Cyfarfodydd

Yn ystod cyfarfodydd, bydd aelodau’n:

- Dilyn cyfarwyddiadau’r Cadeirydd a chyfrannu mewn ffordd foesgar a chynhwysol.
- Trin pob cyfranogwr gyda chwrteisi a pharch.
- Osgoi defnyddio'r fforwm ar gyfer agendâu personol, gwleidyddol neu sefydliadol.
- Sicrhau bod trafodaethau wastad yn adeiladol gyda ffocws ar nodau a rennir.

## 5. Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i aelodau:

- Gwblhau datganiad o fuddiannau personol, ariannol a sefydliadol ar ôl cael eu penodi a hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth am unrhyw newidiadau ar unwaith.
- Datgelu unrhyw fuddiannau penodol sy'n berthnasol i eitem agenda cyfarfod ymlaen llaw neu cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o’r gwrthdaro.
- Gadael trafodaethau a pheidio â phleidleisio ar faterion lle mae gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig yn bodoli, oni bai bod y Cadeirydd yn cytuno fel arall o dan ddarpariaethau'r Cylch Gorchwyl.

## 6. Cynrychiolaeth Allanol

Pan fo aelodau'n cynrychioli sefydliad, rhaid iddynt:

- Gael caniatâd priodol i siarad ar ei ran.
- Adrodd nôl yn briodol ar wybodaeth berthnasol o’r Bwrdd i'w sefydliad o fewn paramedrau cyfrinachedd.

- Cynrychioli barn consensws y Bwrdd mewn fforymau cyhoeddus neu randdeiliaid, ac nid safbwyntiau unigol neu leiafrifol.

## 7. Protocol Cyfathrebu

- Rhaid i'r Cadeirydd gytuno ar bob cyfathrebu swyddogol (y wasg, datganiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol) mewn ymgynghoriad â Chyngor Bro Morgannwg.
- Rhaid i aelodau beidio â siarad ar ran y Bwrdd oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n benodol i wneud hynny.
- Ni chaniateir sylwebaeth anffurfiol neu ollwng gwybodaeth, gan gynnwys dyfalu neu rannu cynnwys cyfarfodydd.

## 8. Torri’r Cod Ymddygiad

- Pan amheuir bod y Cod hwn wedi’i dorri caiff y mater ei gyfeirio at Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg a'u rheoli o dan weithdrefnau cwyno'r Cyngor.
- Gall torri’r Cod arwain at ddileu aelodaeth o'r Bwrdd, yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Cyngor fel y corff atebol.

## 9. Cydnabyddiaeth

Rhaid i bob aelod gadarnhau yn ysgrifenedig eu bod nhw:

- Wedi darllen, deall a chytuno i gadw at y Cod Ymddygiad hwn.
- Yn derbyn eu cyfrifoldeb i ddiogelu uniondeb Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau.